

PARTNERIAETH GWLEDIG MÔN - MINUTES

Cyfarfod <i>Meeting</i>	Partneriaeth Gwledig Môn		
Lle <i>Venue</i>	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad <i>Date</i>	29/09/2015	Amser <i>Time</i>	5.30 pm

Present:

Enterprise Sector Representatives:	
Dr Dylan Evans	
Keith Moore	
Voluntary/Community Sector Representatives	
Dewi Jones	Partneriaeth Llangefni
Bryn Jones	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Mark Gahan	
Alison Hughes	
Public Sector Representatives	
Martin Jardine	Grŵp Llandrillo Menai
Trefor Jones	Prifysgol Bangor
Dylan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Menter Môn Staff	
Gerallt Llewelyn Jones (GLLJ)	<i>Cadeirydd Dros Dro</i>
Dafydd Gruffydd (DG)	
Anglesey Council Staff	
Eifion Lloyd Jones (ELIJ)	

Pwynt	Manylion	Gweithredu
2.1	<p>Croesawyd pawb i'r cyfarfod o Grŵp gweithredu lleol LEADER Môn Gerallt Llewelyn Jones oedd yn gweithredu fel cadeirydd dros dro nes apwyntio cadeirydd swyddogol.</p> <p>Cyflwynodd yr aelodau eu hunain i'w gilydd.</p>	
2.2	<p>Derbynniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol.</p> <p>Jean Baker – Ymddiriedolaeth Treftadaeth Ddiwydiannol Porthaethwy (Sector</p>	

	<p>Gymunedol) Gwawr Bell – Pili Palas (Sector Breifat) Alan Shenton – Job Centre Plus (Sector Gyhoeddus) Heidi Williams – FUW (Sector Gymunedol)</p>	
2.3	<p>Datganiadau diddordeb.</p> <p>Ni waned unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen</p>	
2.4	<p>Cofnodion Cyfarfod – 30/03/15</p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir. Cynigiwyd gan : Martin Jardine, Eiliwyd gan : Dr Trevor Jones</p>	
2.5	<p>Materion yn Codi</p> <p>Dim materion yn codi.</p>	
2.6	<p>Pwrpas Leader</p> <p>Amlinellodd Gerallt Ll Jones a Dafydd Gruffydd y gwahaniaeth rhwng y cronfeydd strwythurol a LEADER, gan esbonio fod LEADER (Liaison Entre Actions de Développement de l'Economie Rurale) yn rhan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Leader yn rhaglen 7 mlynedd • Bydd prosiectau Leader yn cael eu gweithredu o fewn 5 thema • Bydd pwyslais Leader ar beilota gweithgaredd. • Ni fydd y prosiect yn gallu cynnig grantiau. • Byddai Prosiectau wedi eu cyfyngu o ran amser i'r hyn oedd ei angen i dreialu'r syniad ac nid yn ben agored. <p>Esboniodd mai canolbwynt Leader oedd y Grwp (LAG) (sef y bartneriaeth yma), Corff Arweiniol (Menter Môn) a Strategaeth Datblygu Lleol (LDS) oedd wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac a oedd yn nodi gweithgareddau enghreifftiol mewn ymateb i heriau a chyfleoedd adnabyddedig. Gellir newid y gweithgaredd fel bydd y rhaglen yn mynd yn ei blaen.</p> <p>Cytunwyd i gylchredeg copi called o'r LDS i'r aelodau iddynt gyfeirio ati.</p> <p>Gwnaed cais fod cynllun cyfathrebu er mwyn cael y neges am LEADER allan i'r cymunedau yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p>	<p>Cylchredeg copi caled o'r LDS</p> <p>Paratoi cynllun cyfathrebu.</p>
2.7	<p>Diweddariad Cynllun Datblygu Gwledig / Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig.</p> <p>Amlinellodd Dafydd Gruffydd y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Gwledig. Esboniodd fod arian cyfatebol wedi ei sicrhau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn am y tair blynedd gyntaf a bod profiad blaenorol yn awgrymu y byddai hyn yn parhau hyd weddill y rhaglen. Awgrymodd, yn hytrach na bod y bartneriaeth gyfan yn sgorio cynigion, fod is-</p>	

	<p>grwpiau yn cael eu sefydlu i edrych ar y cynigion a rhoi argymhelliad i'r bartneriaeth. Gallai fod yn broses iteraidd gyda'r aelodau yn cyfrannu o'i harbenigedd i wella cynnigion. Mewn modd tebyg, gallai'r grwpiau ddatblygu cynnigion eu hunain i ymateb i'r themâu.</p> <p>Ni fyddai raid i'r grwpiau gyfarfod bob tro gan y gellid trafod cynnigion yn electronig.</p> <p>Cytunwyd i dreialu defnyddio is grwpiau i argymhell cynnigion i'r bartneriaeth llawn.</p> <p>Trafodwyd y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yn fyr hefyd.</p> <p>Cronfa GYFALAF yn unig yw hon gyda dyddiad cau'r rownd gyfredol ar 31^{ain} Ionawr 2016.</p> <p>Byddai disgwyl i unrhyw brosiectau fod wedi trafod eu cynlluniau efo'r LAG, ond Llywodraeth Cymru fyddai'n penderfynu os byddent yn cael eu cymeradwyo.</p> <p>Awgrymwyd fod manylion y broses (Pryd? / Sut?) yn cael ei gylchredeg i'r aelodau a bod cyflwyniad arno yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Gan fod cynhwysiad digidol yn un o'r themau, gwnaed y sylw y dylai fod technoleg ddigidol yn gyrru'r LAG ac y dylai fod yn arwain trwy esiampl ac yn defnyddio dulliau newydd / arloesol i gyfathrebu yn ddigidol.</p> <p>Maes arall i'w ystyried fyddai sut y gellir cyfuno sgiliau bywyd, profiad ac asedau'r genhedlaeth 50+ gyda brwdfrydedd ac arbenigedd digidol pobl ifanc.</p> <p>Byddai angen i gynigion fod yn arloesol yng nghyd -destun Môn ond gallent gynnwys gweithgaredd oedd wedi digwydd mewn ardaloedd eraill e.e. ardaloedd trefol ond heb eu gweithredu yn lleol o'r blaen. O gofio'r datblygiadau posibl sy'n wynebu Ynys Môn gallai fod gwersi i'w dysgu o'r gemau Olympaidd yn Llundain.</p>	<p>Manylion y broses o drafod ceisiadau Cronfa Datblygu Cymunedol Gwledig i'w gylchredeg.</p> <p>Cyflwyniad ar CDCG yn y cyfarfod nesaf.</p>
2.8	<p><u>Cylch Gorchwyl.</u></p> <p>Cymeradwywyd y cylch gorchwyl</p>	
2.9	<p><u>Cyllideb – cadarnhad o'r Arian Cyfatebol</u></p> <p>'Roedd hyn wedi ei drafod o dan y diweddariad o'r Cynllun Datblygu Gwledig.</p>	
2.10	<p><u>Cymeradwyo Ffurflenni</u></p> <p>Trafodwyd y ffurflenni arfaethedig ar gyfer cyflwyno cynnigion. Awgrymwyd y dylai 'r ffurflenni Datganiad o Ddiddordeb gynnwys rhan ar gyfer manylu pam fod angen y gweithgaredd.</p> <p>Gellid addasu'r ffurflenni yn nes ymlaen os bydd angen</p> <p>Cymeradwywyd y ffurflenni draft.</p>	
2.11	<p><u>Rhesymeg Ymyriadau</u></p> <p>Trafodwyd y Tabl Rhesymeg Ymyriadau. Pwysleisiwyd fod rhaid bod wedi</p>	

	cwblhau hwn fel rhan o'r cais. Dylid ystyried yr ymyriadau arfaethedig fel rhai mynegol ac y gellid eu hadolygu a'u newid os oedd angen.	
2.12	<p><u>Ceisiadau</u></p> <p>Cyflwynwyd un cais sef: <u>Gorau Môn (Grŵp Bwyd Môn)</u> – Cefnogaeth ar gyfer gweithdy i adnabod cyfleoedd am ddatblygu pellach (Hwylusydd , lleoliad a lluniaeth). Cymeradwywyd y cais. Cynigiwyd gan Martin Jardine, Eiliwyd gan Dr Trefor Jones</p>	
2.13	<p><u>Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gadarnhau trwy e-bost gan MM.</u></p> <p><u>Diwedd.</u></p>	